Driver and Vehicle Licensing Agency
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Cais gan unigolyn am wybodaeth ynglŷn â cherbyd

Darllenwch y nodiadau dros y dudalen cyn ichi lenwi'r ffurflen hon

I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.direct.gov.uk/dvladataprotection**

V888W

Defnyddiwch INC DU a PHRIF LYTHRENNAU wrth lenwi'r ffurflen hon.

1 Beth ydych chi'n gofyn amdano? Gweler nodyn B dros y dudalen a rhowch '**X**' mewn **un** o'r blychau isod.

A. Enw a chyfeiriad ceidwad cofrestredig cerbyd ar ddyddiad penodol – **y ffi yw £2.50**. (Llenwch yr holl adrannau isod) ☐

B. Gwybodaeth am gerbyd oedd wedi'i gofrestru'n flaenorol, neu sydd wedi'i gofrestru, yn eich enw chi – **y ffi yw £5**. (Llenwch adrannau 2, 3, 4, 5 a 7) ☐

2 Eich manylion (gweler nodyn B dros y dudalen)

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Rhif tŷ:

Cyfeiriad:

Côd post:

Dyddiad geni: D D M M B B B B

Eich rhif ffôn (rhag ofn y bydd angen inni gysylltu â chi):

3 Manylion y cerbyd rydych chi am gael gwybodaeth amdano (gweler nodyn B dros y dudalen)

Rhif Cofrestru'r Cerbyd:

Gwneuthuriad/Model:

Lliw:

4 Pa wybodaeth ydych chi ei heisiau a pham? (gweler nodyn B dros y dudalen)

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

5 Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth? (gweler nodyn B dros y dudalen)

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

6 Manylion i gefnogi'ch cais (gweler nodyn B dros y dudalen)

Os oedd y cerbyd yn adran 3 wedi bod mewn digwyddiad, rhowch y manylion isod.

Dyddiad y digwyddiad: D D M M B B B B

Cyfeiriad y digwyddiad:

Os oedd eich cerbyd chithau hefyd yn y digwyddiad, rhowch eich:

Rhif Cofrestru Cerbyd:

A oedd yna ddifrod neu anaf i:
Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol.

A: Chi ☐ **B:** Eich cerbyd ☐ **C:** Eich eiddo ☐

Rhowch fanylion yr anaf neu'r difrod isod.

(Darparwch adroddiad meddyg neu dystiolaeth arall o anaf ac unrhyw amcanbris ar gyfer trwsio eiddo sydd wedi'i ddifrodi.)

Os rhoddwyd gwybod i'r heddlu, rhowch y wybodaeth a ganlyn:

Rhif y digwyddiad:

Rhif y Swyddog:

Gorsaf Heddlu:

Os oedd tyst, rhowch ei enw a'i gyfeiriad isod.

Os ydych chi wedi rhoi gwybod i'ch Cwmni Yswiriant, rhowch enw a chyfeiriad eich Cwmni Yswiriant/Brocer.

Rhif eich polisi:

Wnaethoch chi ofyn i'ch Cwmni Yswiriant olrhain y cerbyd? Do ☐ Naddo ☐

7 Datganiad

Yr wyf yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Ni fyddaf yn defnyddio'r wybodaeth a roddir imi at unrhyw ddiben arall heblaw am yr hyn a nodwyd yn adran 5. Rwyf yn ymwybodol ei bod yn drosedd dan Adran 55 o Ddeddf Diogelu Data 1998 i gaffael neu werthu gwybodaeth bersonol yn anghyfreithlon.

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐

Enw Llawn:

Llofnod:

Dyddiad:

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
UK
Safon y Llywodraeth
The Government Standard

A Gwybodaeth bwysig dylech ddarllen cyn llenwi'r ffurflen

- Mae'n ddyletswydd arnom dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i warchod gwybodaeth bersonol.

  Fodd bynnag, mae Rheoliad 27 o Reoliadau Cerbydau'r Ffordd (Cofrestru a Thrwyddedu) 2002, yn darparu ar gyfer rhyddhau gwybodaeth lle bydd rhywun yn dangos achos rhesymol dros fod eisiau'r wybodaeth honno.
- Mae'n drosedd dan Adran 55 o Ddeddf Diogelu Data 1998 i gaffael neu werthu gwybodaeth bersonol yn anghyfreithlon. Gellir codi dirwy o hyd at £5000 am y drosedd hon.
- Byddwn yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gywir.
- Os ydych wedi dewis opsiwn A yn adran 1, mae'n bosibl y darperir copi o'r cais hwn i geidwad cofrestredig y cerbyd yn adran 3, os gofynnir amdano.

Noder: Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyfeiriad gyda'r cais. Os na wnewch ddarparu un ddogfen wreiddiol o'r rhestr isod ni fyddwn yn medru delio a'ch cais a fyddwn yn ei dychwelyd i chi.

Dogfennau i gadarnhau eich cyfeiriad:

- Bil nwy, trydan, dwr neu ffon llinell tir a gyhoeddwyd yn y tri mis diwethaf,
- Cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu a gyhoeddwyd yn y tri mis diwethaf.

B Sut i lenwi'r ffurflen

Adran 1 – Beth ydych chi'n gofyn amdano?

Dylech ddewis naill ai opsiwn A neu B – ni allwch ddewis y ddau. Os hoffech wneud mwy nag un cais am wybodaeth, bydd angen ichi lenwi ffurflen V888W ar wahân ar gyfer pob cais.

Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall, mae'n rhaid ichi ddarparu datganiad ysgrifenedig oddi wrth yr unigolyn hwnnw'n eich awdurdodi i wneud hynny.

Adran 2 – Eich manylion

Rhowch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt. Cofiwch ddarparu tystiolaeth o'ch cyfeiriad (Gweler y nodyn yn Adran A uchod).

Os ydych chi'n gofyn ynglŷn â cherbyd oedd wedi'i gofrestru yn eich enw chi'n flaenorol, a bod eich enw a/neu'ch cyfeiriad wedi newid ers ichi fod yn geidwad cofrestredig arno, rhowch y manylion blaenorol isod.

Adran 3 – Manylion y cerbyd rydych chi am gael gwybodaeth amdano

Rhowch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt. Os na allwch chi roi'r holl fanylion hyn, efallai na fyddwn yn gallu prosesu'ch cais.

Adran 4 – Pa wybodaeth ydych chi ei heisiau a pham?

Os gwnaethoch chi ddewis **opsiwn A** yn adran 1, mae angen ichi ddisgrifio y sefyllfa a achosodd ichi fod eisiau enw a chyfeiriad ceidwad cofrestredig y cerbyd yn adran 3, ac ym mha ffordd yr oedd y cerbyd yn rhan o'r sefyllfa'n uniongyrchol.

Os gwnaethoch chi ddewis **opsiwn B** yn adran 1, mae'n rhaid ichi ddweud wrthym pa wybodaeth rydych ei heisiau a pham. Byddai'n help i ni, lle bo'n briodol, pe gallech ddarparu dyddiadau penodol.

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

Adran 5 – Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth?

Er mwyn ystyried eich cais, mae arnom angen cymaint o fanylion ag y gallwch eu rhoi ynglŷn â sut rydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

Ni ddylid ceisio'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani oni bai y caiff ei defnyddio mewn modd teg a chyfrifol ac at y diben y'i ceisiwyd ar ei gyfer.

Bydd unrhyw gwynion cyfreithlon a dderbynnir ynglŷn â gwybodaeth a gaffaelir yn anghyfreithlon yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd Gwybodaeth i ystyried erlyniad. Os oes gennym ni dystiolaeth bod gwybodaeth wedi'i chaffael neu'i defnyddio'n amhriodol, gallwn wrthod pob cais yn y dyfodol.

Adran 6 – Manylion i gefnogi'ch cais

Dim ond os gwnaethoch chi ddewis opsiwn A yn adran 1 y dylech chi lenwi'r adran hon, a dim ond os oedd y cerbyd yn adran 3 wedi bod mewn digwyddiad.

Dylech chi gynnwys cymaint o dystiolaeth ategol â phosibl gan gynnwys, er enghraifft, copïau o amcanbrisiau ar gyfer trwsio cerbyd sydd wedi'i ddifrodi.

Efallai y byddwn yn gwrthod eich cais os na fyddwch chi'n rhoi digon o wybodaeth inni am y digwyddiad.

Sylwch: os ydych chi'n gwneud cais oherwydd difrod i gerbyd, mae'n rhaid ichi fod yn geidwad cofrestredig y cerbyd hwnnw, neu fod â datganiad ysgrifenedig oddi wrth geidwad cofrestredig y cerbyd hwnnw'n eich awdurdodi i wneud y cais.

Adran 7 – Datganiad

Rhaid ichi lofnodi'r datganiad a nodi'r dyddiad, neu byddwn yn gwrthod eich cais am wybodaeth.

C Sut i dalu a lle i anfon eich cais

Dylid gwneud sieciau ac archebion post yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'. Peidiwch ag anfon arian parod.

Anfonwch y ffurflen hon gydag unrhyw ddogfennau ychwanegol, a'r ffi briodol, i:

Adran Ymholiadau am Ffioedd
DVLA
Abertawe
SA99 1AJ.

Ch Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion ac arweiniad diweddaraf am ryddhau gwybodaeth o'n cofnodion ar ein gwefan **www.direct.gov.uk/dvladataprotection**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth